Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cynllun Datblygu Lleol | Local Development Plan

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**
**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 15) (fel y'i diwygiwyd 2015).**

# Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir) ar gyfer Castell-nedd Port Talbot Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2023-2038)

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi paratoi dogfennau cynigion cyn-adneuo ar gyfer y cynllun uchod. Ar ôl eu mabwysiadu, yr Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol a bydd yn sail penderfyniadau am y defnydd o dir yn ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot bellach yn sicrhau bod dogfennau cyn-adneuo ar gael i'w harchwilio. Gwahoddir sylwadau am y dogfennau cynigion cyn-adneuo sy'n amlinellu Gweledigaeth, Twf ac Opsiynau Gofodol, Strategaeth a Ffefrir, a Pholisïau Strategol i'r CDLlA. Gwahoddir sylwadau hefyd ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY) (safleoedd a gyflwynwyd yn ystod y galwadau am Safleoedd Ymgeisiol a'r Astudiaeth Capasiti Trefol), yr Arfarniad Cynaladwyedd Integredig Cychwynnol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae cyfres o ddogfennau cefndir hefyd wedi'u cyhoeddi.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir, Adroddiad Adolygu CDLl (2022) a'r Gofrestr ynghyd â dogfennau cefndirol cefnogol yn gallu cael eu harchwilio ar borth ymgynghoriad CDLl ar gael drwy wefan y Cyngor (https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/) ac mae copïau o'r brif ymgynghoriad hefyd ar gael i'w harchwilio yma:during office hours:
- Canolfan Ddinesig Castell-nedd, Castell-nedd SA11 3QZ;
- Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ; a
- Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG.

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg am 8 wythnos o hanner dydd 12 Rhagfyr 2024 a hanner dydd 6 Chwefror 2025. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau yw hanner dydd ar 6 Chwefror 2025.

Mae'r Cyngor yn annog Sylwadau i gael eu gwneud ar borth ar-lein ymgynghoriad CDLl y gallwch gyrraedd ato o wefan (https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/) .

Caiff sylwadau eu derbyn hefyd drwy'r post neu drwy e-bost gan ddefnyddio ffurflenni safonol ar gyfer sylwadau sydd ar gael o'r lleoliadau uchod neu ar ofyn oddi wrth: or from our website ldp@npt.gov.uk

Bydd sylwadau y tybir eu bod wedi eu gwneud a'u derbyn erbyn y dyddiad cau yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn ffurfiol wrth baratoi'r CDLl Newydd.

Gellir atodi cais gyda'r sylwadau, i gael eich hysbysu, mewn cyfeiriad penodol, fod y CDLl Newydd wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am archwiliad annibynnol a bod y cynllun wedi ei fabwysiadu.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried sylwadau sy'n cael eu gwneud yn unol â'r hysbysiad hwn yn unig.

Ni fydd yr Archwiliwr Annibynnol sy'n cyflawni'r archwiliad yn ystyried sylwadau sy'n cael eu gwneud yn ystod y cam cyn-adneuo hwn. Bydd cyfle pellach i wneud sylwadau yn ystod yr Ymgynghoriad Adneuo a byddant yn cael eu hystyried gan yr Archwiliwr yn ystod y cam Archwilio.

**Tîm polisi cynllunio CNPT, Y Cei,Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd, SA11 2GG**